**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 128 – Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau (Ad)

# Taith Iaith o Dŷ Nain i Dŷ Mam-gu, John Gwilym Jones

Ar ôl rhoi'r tŷ i gysgu,
  Ac wedi deffro'r car,
Cychwynnwn ar ein siwrna
  Hyd y pelltera tar.

Fe groeswn draw dros Fenai,
  A madal 'nawn â Môn,
Drwy G'narfon, lle mae'r cofis
  Fel lindys hyd y lôn.

I lawr i Gob Porthmadog,
  I fyny llawer allt,
A heibio Coed y Brenin
  A'r awal yn eu gwallt.

Bydd nhed yn gwasgu arni,
  A'r cier yn rhedeg res
Rhwng Tal-y-llyn a Chorris,
  A lewr i'r Dderwen Les.

Yna yn sydyn wedyn
  Awn drwy Lanbadarn Fawr,
A'r ffyrdd yn troi yn hewlydd
  Po bella' aem i lawr.

Ie, obry awn i Lanarth,
  A lan y rhiwe'n glou,
Fel hwthwm drw' Bencader
  A Pheniel, 'mhell cyn dou.

O Nant y Caws i Glytach,
  A throi sha'r hewl i'r tŷ:
Otyn ni 'ma? Wel otyn!
  Shgwlwch! 'Na hi, Mam-gu!